**<u>Darn Llefaru CA2</u>**

***<u>(Reciting for KS2)</u>***

**<u>Y Bel Droed</u>**

'Roedd Wil, fy mrawd , a minnau
Yn cicio pêl a'i dal.
Ond ciciodd Will mor uchel
Nes aeth hi dros y wal

'Roedd Modryb Jen, drws nesa',
Yn garddio ar y pryd,
A'r bêl a ddaeth a'i tharo-
A syrthiodd ar ei hyd.

I ffwrdd a ni i guddio
Tu ôl i gwt yr ieir.
"Os dywed hi wrth Mami",
Medd Will. "mi gawn ni gweir".

Ond pwy ddaeth drwy'r llidiart
I'r ardd, ond Modryb Jen,
"ai chi bia'r bêl 'ma hogia?"
Gofynnodd gyda gwên.

'Nawr fi sy'n gwneud y cicio,
A Wil sy'n gwneud y dal;
Ni chaiff y bêl byth eto
Ei chicio dros y wal.

**<u>Côr CA2</u>**

***<u>(Choir song for KS2)</u>***

**Hei ti'n cŵl, ti'n ffrind i mi.**

Hei ti'n cŵl, ti'n ffrind i mi.

Ti'n gwybod sut ma'i,
bob tro dwi mewn rhyw lanast,
A phawb yn troi'n gas a phetha'n flêr o'm cwmpas,
Ti yno, i helpu, i estyn dy law,
Sychu 'nagra a'm codi o'r baw.

Ti'n gry' a ti'n glên, yn ddewr ac mor garedig,
Bob amser 'fo gwên, ti'n berson mor arbennig.
Ti'n barod i'm codi yn ôl ar fy nhraed,
Hei ti'n cŵl, ti'n ffrind i mi.

Codi f'ysbryd, rhannu 'maich, a'm tywys drwy yr oriau du.
*(Codi f'ysbryd, trwy yr oriau du, tywys drwy yr oriau du)*
Dal yn driw, *(a dal yn driw)* beth bynnag ddaw,
Does neb, does neb fel ti.

Ti'n gry' a ti'n glên, yn ddewr ac mor garedig,
Bob amser 'fo gwên, ti'n berson mor arbennig.
Ti'n barod i'm codi yn ôl ar fy nhraed,
Hei ti'n cŵl, ti'n ffrind i mi.

# Eisteddfod ysgol

# CA2